

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

2024-2025



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cynnwys

Cyflwyniad a chefnidir	4
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.....	7
Asesiad Perfformiad	9
Thema: Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol	9
Thema: Gwasanaethau Hygyrch.....	16
Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol.....	21
Thema: Tegwch cyflog.....	30
Thema: Cymunedau Diogel, Cynhwysol a Chydlynol	36
Thema: Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth	38
Data'r Gweithlu	39
Caffael	42
Y camau nesaf.....	44
Manylion Cyswllt.....	45

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024-2025 ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028. Paratowyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Dyma'r adroddiad cyntaf ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

Neges gan ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb, y Cynghorydd Gareth Richards

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor unwaith eto. O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar y camau y mae wedi'u cymryd i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy ddarparu gwasanaethau gan roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu trin yn gyfartal ac nad yw eu hamgylchiadau unigol yn rhwstr iddynt dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan y Cyngor na'i bartneriaid. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn derbyn triniaeth llai ffafriol oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol. Mewn achos lle mae'n amlwg bod anghydraddoldeb o ran triniaeth neu ganlyniad, bydd y Cyngor yn mynd ati i gymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o'r fath. Ein nod yw nid yn unig i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol, ond hefyd i wneud Merthyr Tudful yn fan lle mae pawb yn bwysig. Rydym am i Ferthyr Tudful fod yn fan lle nad oes unrhyw un yn profi gwahaniaethu neu anfantais oherwydd eu hunaniaeth na'u cefndir. Mae'r Cyngor yn gweld pawb ym Merthyr Tudful fel dinesydd cyfartal tra'n cydnabod y bydd gan bobl anghenion gwahanol.

Drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2024-2025 yn dyst i ymgyrch barhaus y Cyngor i ddatblygu ei agenda cydraddoldeb a chyflawni ein Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

Man lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael cyfle i gyflawni eu potensial yn rhydd rhag gwahaniaethu a rhagfarn.

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd, cyflogwr a gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella lles y Fwrdeistref Sirol. Cydnabyddir bod meysydd i'w gwella ac y byddant yn parhau i fod.

Cyflwyniad a chefnidir

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysondebau ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd yn y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), gan ddisodli'r dyletswyddau ar wahân ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Daeth hyn i rym ar Ebrill 5^{ed} 2011.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaethau sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn nyluniad polisiâu a darparu gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Pwrpas eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar Ebrill 6^{ed} 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth cyflogaeth
- Gwahaniaethau cyflog
- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiad blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidogion Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Gweledigaeth ac Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2024-2028 yn cefnogi Amcanion Llesiant y Cyngor a'r saith Nod Llesiant (a ddangosir yn y diagram isod) ac yn cysylltu â'r pum ffordd o weithio (yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy) a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Long term



The importance of balancing short-term needs with the need to safeguard the ability to also meet long-term needs.

Prevention



How acting to prevent problems occurring or getting worse may help public bodies meet their objectives.

Integration



Considering how the public body's well-being objectives may impact upon each of the well-being goals, on their other objectives, or on the objectives of other public bodies.

Collaboration



Acting in collaboration with any other person (or different parts of the body itself) that could help the body to meet its well-being objectives.

Involvement



The importance of involving people with an interest in achieving the well-being goals, and ensuring that those people reflect the diversity of the area which the body serves.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth, yng Nghymru mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol.

Rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â set o Safonau Iaith cenedlaethol a gyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg drwy Hysbysiad Cydymffurfio i'r Cyngor. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi pa un o'r 176 o safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r Cyngor, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg ond yn hytrach mae ganddynt set o Safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cydnabuwyd ers tro bod agendâu polisi cydraddoldeb a iaith Gymraeg yn ategu ac yn llywio ei gilydd. Atgyfnerthir hyn ymhellach gan y nod o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer 2024-2028 yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Pwrpas y cynllun yw gwella cyfleoedd cyfartal yn ein cymunedau trwy ddarparu gwasanaethau a chyflogaeth, drwy'r modd yr ydym yn comisiynu, ein harweinyddiaeth a drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill.

Rydym eisiau creu Bwrdeistref Sirol sy'n sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg ym mhob agwedd o'u bywydau; lle nad oes unrhyw un yn cael eu gwahaniaethu neu eu rhoi dan anfantais oherwydd eu cefndir neu eu hunaniaeth.

"Ardal lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu a gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn."

Ein Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful

Fel Cyngor, mae gennym ddyletswydd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais yn yr ystyr bod pobl yn teimlo'n ddiogel rhag aflonyddu a bod gan bawb fynediad at wasanaethau o ansawdd uchel. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol i bobl ym Merthyr Tudful.

Mae'r cynllun yn tynnu sylw at gysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n cwmpasu Deddf Safonau'r Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Ein Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028

Rydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau a'n gweithlu i ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio ein hamcanion, gan gynnwys edrych ymlaen at ystyried newidiadau posibl yn y dyfodol y mae angen i ni eu hystyried wrth asesu effaith. Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp nodweddiadol gwarchodedig a bydd yr amcanion yn ein helpu i barhau i wneud hyn.

Amcanion 2024-2028	
Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol	Ymgysylltu â'n cymunedau a'n gweithlu i gefnogi cyfranogiad effeithiol ac annog pobl i gymryd rhan.
Gwasanaethau Hygyrch	Deall a chael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'n gwasanaethau.
Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol	Cefnogi gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.
Tegwch cyflog	Sicrhau tegwch cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
Cymunedau Diogel, Cynhwysol a Chydlynol	Hyrwyddo a hwyluso cymunedau diogel, cynhwysol a chydlynol.
Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth	Gwella addysg, sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth.

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb hyn yn cael eu cyflawni drwy'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Nodwyd sawl cam gweithredu o dan bob amcan ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gyflawni'r camau gweithredu hyn. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw ddiweddariadau a newidiadau i ddeddfwriaeth neu ofynion wrth i ni symud ymlaen.

Asesiad Effaith Integredig

Fel rhan o sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswydd, rydym yn adolygu Asesiad Effaith Integredig (AEI) y Cyngor yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynnwys gofynion cyfredol i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol.

Yn 2024-2025, diweddarwyd yr Asesiad Effaith Integredig i gynnwys asesiad manylach o'r Gymraeg. Mae hwn er mwyn gwella cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ymhellach a sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn fanylach.

Roedd yr adrannau'n cynnwys:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Iaith Saesneg.

Diweddarwyd y broses ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Integredig hefyd ym mis Ebrill 2025. Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig mwyach ar gyfer adroddiadau gwybodaeth o adroddiadau sy'n edrych yn ôl. Byddant yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer penderfyniadau strategol, newidiadau gwasanaeth, cynigion cyllideb, polisiau, ailgynllunio gwasanaethau ac ati. Mae'r holl reolwyr wedi cael gwybod am hwn ac mae gwybodaeth am y newidiadau, gan gynnwys canllawiau, ar ein Mewnrwyd.

Asesiad Perfformiad

Isod mae'r crynodeb o'r cynnydd yn erbyn cyflawniadau ein Amcanion Cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028.

Thema: Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol

Amcan: Ymgysylltu â'n cymunedau a'n gweithlu i gefnogi cyfranogiad effeithiol ac annog pobl i gymryd rhan

Un o'r amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol. Mae cydlyniant cymunedol yn hanfodol yn y Fwrdeistref Sirol gan ei fod yn darparu amgylchedd lle gellir datblygu perthnasoedd cryf a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. Mae cymunedau cydlynol yn gymunedau sy'n gallu mynd i'r afael â phroblemau cyffredin yn well, darparu cefnogaeth i'w gilydd a gweithio gyda'i gilydd ar gyfer dyfodol cadarnhaol. Mae trigolion mewn cymunedau cydlynol da yn teimlo'n fwy diogel ac maent yn teilio ei bod yn perthyn.

Dyma grynodeb o sut gweithredwyd hwn a'r modd y mae sefydliadau allanol eraill a gwaith mewnol wedi cyfrannu tuag at gyflawni'r amcan.

Digwyddiadau Cymunedol

Great Get Together Jo Cox

Mae'r *Great Get Together* yn ddathliad blynyddol yn y Deyrnas Unedig o bopeth sy'n uno ein cymunedau, wedi'i ysbrydoli gan gred Jo Cox bod gennym fwy yn gyffredin na'r hyn sy'n ein gwahanu. Roedd Jo Cox yn Aelod Seneddol ac yn ymgyrchydd angerddol a dyngarol a gafodd ei lladd, yn drist iawn, ar ei ffordd i gwrdd â'i hetholwyr.

Dydd Gwener 21 Mehefin, trefnodd Swyddogion Cydlyniant ynghyd ag Elusen Stephen a George fore coffi i'r cyhoedd. Roedd yr Aelod Cynulliad Lleol Dawn Bowden AC yn bresennol ynghyd â rai o swyddogion Heddlu De Cymru.

Yn ogystal, anfonwyd pecynnau addysgol at ysgolion ledled Merthyr i'w galluogi i gyflwyno gwasanaethau neu wersi'n canolbwyntio ar y pwnc hwn yn ogystal â'u cynorthwyo i drefnu digwyddiadau os oeddent yn dymuno.

LHDT+

Mae Cyfeillion Gwiwer (Squirrel Friends yn Saesneg) yn gyfarfod cymorth misol i'r gymuned Draws, ac mae'n parhau i gael ei gefnogi gan y tîm Cydlyniant Cymunedol. Mae'r tîm wedi cwrdd â'r grŵp sawl gwaith i drafod unrhyw bryderon ynghylch troseddau casineb a chefnogaeth sydd wedi'i anelu at bobl drawsrywiol yn y gymuned. Mae swyddogion wedi eu cefnogi i ddod o hyd i leoliad newydd a chyllid ar gyfer eu grŵp cymorth.

Mae casgliad llinell amser o hanes LHDT+ yng Nghymru wedi'i chreu, ac mae llinell amser ar gyfer Merthyr Tudful wedi'i chynnwys. Mae'n gipolwg gwych ar rai o'r uchafbwyntiau o gyfeiriadedd rhywiol a hanes hunaniaeth rhywedd Merthyr Tudful.

Troseddau casineb

Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

Cynhaliwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb eleni rhwng y 3^{ydd} a'r 7^{fed} o Chwefror. Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn ymgych bwrpasol sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth ynghylch troseddau casineb a hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth ymhlith cymunedau. Mae'n wythnos sy'n annog sefydliadau, partneriaid allweddol, a chymunedau i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throseddau casineb lleol a lleihau ei effeithiau.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb trefnwyd amryw o ddigwyddiadau a mentrau gan y tîm Cydlyniant Cymunedol i addysgu pobl am effaith troseddau casineb a sut i adrodd eu bod wedi digwydd, yn ogystal ag annog cymunedau i ddod at ei gilydd i frwydro yn erbyn casineb a rhagfarn.

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â'r gymuned yn:

- Trago Mills
- Coleg Merthyr
- Ysgol Gymunedol Abercanaid
- Hwb Canol y Dref, Merthyr Tudful

Mae'r tîm Cydlyniant wedi dosbarthu posteri a thaflenni i bob meddygfa leol a lleoliadau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i roi gwybod bod trosedd casineb wedi digwydd. Anfonwyd e-byst i ysgolion lleol yn eu cyfeirio at y gwefannau perthnasol a oedd yn cynnwys adnoddau i gefnogi cynulliadau a gwersi. Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, dosbarthwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac anfonwyd e-byst at staff hefyd.

Yn dilyn digwyddiad hiliol honedig mewn gêm bêl-droed yng Nghlwb Pêl-droed Tref Merthyr, aeth y tîm cydlyniant at fwrdd y clwb a threfnu cyfarfod i gynnig cefnogaeth gyda'r ymchwiliad sy'n ymwneud â'r clwb a chefnogaeth barhaus i'r swyddogion a'r cefnogwyr. Cafodd y digwyddiad ei gyhoeddi'n dda yn y newyddion ac ar y cyfryngau cymdeithasol ac fe gafodd y gefnogaeth a gynigiwyd gennym ei dderbyn yn frwdfrydig gan y clwb. Rydym wedi cynnig ein cefnogaeth barhaus ar gyfer y tymor nesaf trwy bosteri a thaflenni troseddau casineb i'w harddangos mewn gemau cartref sy'n cynnwys cod QR er mwyn ei wneud yn hawdd i bobl roi gwybod am bryderon yn ogystal ag unrhyw gymorth pellach y gallai fod ei angen arnynt.

Ras dros Gasineb

Ddydd Gwener y 27^{ain} o Fedi, cynhaliodd Heddlu De Cymru'r Ras dros Gasineb gyntaf yng Nghanolfan Sobell, Aberdâr, a oedd yn cynnwys dros 1200 o blant o bob rhan o Ferthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Roedd yn gyfle i'r Heddlu, y tîm Cydlyniant a phlant ysgol uno yn eu hymrwymiad i frwydro yn erbyn casineb. Roedd y diwrnod yn llawn hwyl a mwynhad ond roedd hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o sut y gall troseddau casineb a digwyddiadau casineb effeithio ar unigolion.

Diwrnod Cofio'r Holocaust

Mae Diwrnod Cofio'r Holocaust (DCH) yn ddiwrnod i fyfyrrio, cofio a dysgu. Ei brif bwrpas yw sicrhau bod y cof am yr Holocaust yn cael ei gadw a bod gwersi o'r cyfnod tywyll hwn mewn hanes yn cael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Roedd eleni'n nodi 80 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz-Birkenau; un o'r gwersylloedd crynhoi a difa mwyaf enwog a weithredwyd gan y Natsïaid. Roedd hefyd yn nodi 30 mlynedd ers yr hil-laddiad yn Bosnia.

Thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2025 eleni oedd 'Er mwyn Gwell Dyfodol' sy'n golygu gobaith y gall pobl ddod at ei gilydd, dysgu o'r gorffennol ac am y gorffennol, a chymryd camau i greu dyfodol gwell i bawb.

Ymunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful â phobl ledled y byd i gofio dioddefwyr yr Holocaust. Gosodwyd torch yn y Fynwent Goffa Iddewig yng Nghewn Coed gan uwch swyddogion y Cyngor ynghyd â Heddlu De Cymru.

Mis Hanes LHDT+

Cynhelir Mis Hanes LHDT+ drwy gydol mis Chwefror. Mae'n fis cyffrous, addysgiadol llawn dathlu gyda'r nod o ddysgu am ragfarn a gwneud cymunedau LHDT+ yn eu holl amrywiaeth gyfoethog, yn weladwy. Mae hefyd yn anelu at hyrwyddo cymdeithas mwy diogel a mwy cynhwysol lle mae'r sbectwm amrywiol o rywioldeb a rhywedd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ac yn cael ei siarad amdano'n agored.

Y thema ar gyfer 2025 oedd 'Ymgychu a Newid Cymdeithasol' a oedd yn dathlu cyfraniad pobl LHDT+ i wneud y byd yn lle gwell i ni i gyd.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o gefnogi Mis Hanes LHDT+ a chynhaliwyd seremoni codi'r faner ar 5 Chwefror lle codwyd baner *Pride* y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig.

Cynhaliwyd gweithdy cynhwysol o'r enw 'Celf Blodau' yng Nghastell Cyfarthfa. Roedd mynychwyr yn gallu dysgu, trafod a gwneud cofnod wedi'i ysbrydoli gan fis Hanes LHDT+. Roedd yn cynnwys paned gyfeillgar, taith fach o amgylch y casgliad celf LHDT+, ac yna cyfle i wneud crefft.

Mis Pride

Mae Mis *Pride* yn ymwneud â derbyn, cydraddoldeb, dathlu gwaith pobl LHDT+, dysgu am hanes a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar y gymuned.

Dethlir Diwrnod *Pride* ar yr 28^{ain} o Fehefin. Mae'r diwrnod hwn yn nodi'r dyddiad mewn hanes pan ddigwyddodd gwrthryfelodd Stonewall yn Ninas Efrog Newydd ym 1969. Nod Mis *Pride* yw coffáu'r gwrthryfel, a gafodd effaith fyd eang a sicrhodd diwygiadau yn y gyfraith a'i wneud yn bosib derbyn hunaniaeth LHDT+.

I ddathlu Diwrnod *Pride*, codwyd y Faner Cynnydd y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar y 1^{af} o Fehefin a'i chwifio drwy gydol y mis i ddathlu amrywiaeth yn ein cymunedau. Mynychodd rhai swyddogion a chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddigwyddiad *Pride* Cymru 2024 yng Nghaerdydd a gorymdeithiodd nifer ohonynt yn yr orymdaith yn ystod

dathliad blynyddol *Pride* Cymru. Fe wnaethant fynychu, ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, o dan faner 'Cynghorau Balch'.

Digwyddiad *Pride* Merthyr Tudful

Yn 2024, cynhaliodd Merthyr Tudful ei ail Ddigwyddiad *Pride* ar ddydd Sadwrn yr 17^{eg} o Awst. Roedd yn ddiwrnod lliwgar a bywiog, gan ddechrau gyda Gorymdaith *Pride* trwy ganol y dref. Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Coleg, gyda stondinau bwyd a diod, busnesau lleol, ac adloniant byw.

Roedd yn ddiwrnod gwych, gyda llawer o gefnogwyr, noddwyr, sefydliadau ac elusennau lleol yn helpu i'w wneud yn llwyddiant.

Roedd swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnal stondin. Dosbarthwyd taflenni a nwyddau yn hyrwyddo ffyrdd y gellir adrodd am droseddau casineb, ynghyd â chod QR sy'n mynd â'r defnyddiwr yn uniongyrchol at dudalen adrodd 101 y gellir ei defnyddio yn ddienw. Manteisiodd swyddogion hefyd ar y cyfle i ymgysylltu ag aelodau a chefnogwyr y gymuned LHDT+ i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd am droseddau casineb, ac i dderbyn adborth ynghylch sut y gellir gwella pethau.

Diwrnod Rhuban Gwyn

Trefnwyd digwyddiad gan Grŵp Cymunedol Rhuban Gwyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i'w gynnal ar y 25^{ain} o Dachwedd i ddangos cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig. Byddai'r digwyddiad yn cynnwys seremoni codi baner y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig sy'n gorffen gyda gwylnos yng ngolau kannwyll y tu allan i Hwb Canol y Dref. Trefnwyd y byddai amrywiaeth o siaradwyr ar ran ein partneriaid yn bresennol ac y byddai lluniaeth yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, oherwydd rhybudd o dywydd garw bu'n rhaid canslo'r digwyddiad ar fyr rybudd. Gobeithiwn gynnal digwyddiad tebyg ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn nesaf ym mis Tachwedd 2025. Mae cyfarfodydd ar gyfer hyn eisoes wedi digwydd.

Cymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei nodi'n flynyddol a'i gynnal ym mis Mehefin. Pwrpas y dathliad mis o hyd hwn yw codi ymwybyddiaeth am hanes, diwylliant a chyfraniadau'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal â herio'r stereoteipiau a'r gwahaniaethu y maent yn aml yn eu hwynebu.

Gweithiodd y Tîm Cydlyniant yn agos gyda Rheolwr Safle Glynmil Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a hyrwyddodd a threfnodd ddigwyddiad ar gyfer Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cynhaliwyd y digwyddiad ar safle Glynmil ar yr 28^{ain} o Fehefin 2024.

Roedd ysgolion lleol yn bresennol a chynhaliwyd gweithgareddau gan amrywiaeth o fusnesau a sefydliadau lleol. Roedd Dawn Bowden AC, Heddlu De Cymru, cynghorwyr lleol a thrigolion y gymuned ehangach hefyd yn bresennol.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol ac roedd y trigolion yn awyddus i ailadrodd y llwyddiant hwn a threfnu mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol a oedd yn cynnwys y gymuned ehangach, nad yw'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Swyddog Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nglynmil a'i gefnogi i drefnu pecynnau addysg a hyfforddiant yn ogystal â'i gynorthwyo i ddod o hyd i gyllid ar gyfer prosiectau parhaus ac yn y dyfodol.

Diwrnod Hawliau Gofalwyr

Bob dydd, mae 12,000 o bobl yn dod yn ofalwyr di-dâl i bartner, aelod o'r teulu neu ffrind. Ar yr 21^{ain} o Dachwedd, yng Nghanol y Dref, cynhaliwyd digwyddiad coffi a sgwrsio ar gyfer Diwrnod Hawliau Gofalwyr.

Ym mis Mehefin roedd hi'n wythnos Gofalwyr, a threfnwyd sesiynau galw heibio yn Hwb Canol y Dref. Gallai gofalwyr alw heibio i weld pa gymorth lleol sydd ar gael iddynt. Roedd amrywiaeth o sefydliadau'n bresennol i esbonio pa gymorth/gwasanaethau oedd yn iawn iddyn nhw. Roedd y sefydliadau yn cynnwys: VAMT, Mencap, Cyngor ar Bopeth, Cymdeithas Alzheimer Cymru a llawer mwy.

Twrnaint Pêl-droed Cydlyniant Cymunedol

Dydd Sul y 19^{eg} o Fai, trefnodd Heddlu De Cymru a'r tîm Cydlyniant Cymunedol Dwrnamaint Pêl-droed Cydlyniant yr haf ym Merthyr Tudful. Roedd y twrnaint yn cynnwys 23 o dimau a oedd yn cynnwys timau sy'n cynnwys staff o awdurdodau lleol, Heddlu De Cymru, elusennau digartref, y Mosg Lleol, cymuned Malayali Merthyr ac amryw o grwpiau cymunedol lleiafrifol eraill.

Cysylltodd y tîm Cydlyniant ym Merthyr Tudful â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chefnogodd grŵp o geiswyr lloches ifanc a oedd wedi cyrraedd geb deulu na chydymaith i ffurfio tîm a chymryd rhan yn y twrnaint. Ariannodd y tîm werth pum wythnos o gyfleusterau hyfforddi i ddod â nhw at ei gilydd gan eu bod yn byw ar draws De Cymru. Galluogodd hwn y bobl ifainc i gwrdd â'i gilydd, ffurfio perthnasoedd ac ymgorffori eu hunain yn y gymuned leol.

Mis Hanes Pobl Ddu

Mae Mis Hanes Pobl Du yn cael ei gofnodi bob mis Hydref. Mae'n gyfle i ddathlu'r cyfraniadau eithriadol y mae pobl du wedi'u gwneud i gymdeithas Prydain, boed hynny heddiw neu'n hanesyddol. Mae hefyd yn gyfle i bobl ddysgu mwy am effeithiau hiliaeth a sut i herio stereoteipiau negyddol.

Y thema ar gyfer 2024 oedd 'Adennill Storiâu' sy'n nodi newid sylweddol tuag at gydnabod a chywiro naratifau hanes a diwylliant pobl du.

Mae Mis Hanes Pobl Du hefyd yn amser i bobl ddysgu mwy am effeithiau hiliaeth a sut i herio stereoteipiau negyddol.

Dim Hiliaeth Cymru

Mae Dim Hiliaeth Cymru (Zero Racism Wales yw'r enw yn Saesneg) yn ymgyrch dan arweiniad Cyngor Hil Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chydlynwyr Cydlyniant Cymunedol. Mae'n galw ar fusnesau, sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cytgordd a thegwch hiliol i lofnodi addewid a chytuno ar bolisi dim goddefgarwch i hiliaeth yng Nghymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymrwymo i hyrwyddo dim goddefgarwch i hiliaeth ledled y Cyngor ac mae wedi lofnodi polisi Dim Hiliaeth Cymru Cyngor Hil Cymru. Trwy lofnodi'r polisi, mae'n ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn trin pob person yn deg ac yn gyfartal waeth beth fo'u hil, bod cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth ar gael a bod gwasanaethau'n cael eu darparu ac y bydd y Cyngor yn cadw at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn darparu gwasanaethau teg i bawb. Fel Cyngor, rydym yn cytuno i gymryd safiad yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo gweithle a chymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal sy'n gwneud i bob unigolyn deimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys.

Mae addewid llawn y Cyngor i'w weld ar wefan Dim Hiliaeth Cymru.

Nod Llywodraeth Cymru yw creu Cymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030, gyda chymorth Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y profiadau anghydraddoldebau hiliol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn gan bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Gellir gweld y cynllun ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mynychodd tîm Cydlyniant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddigwyddiad ymgysylltu â'r gymuned ym Merthyr a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, i gwrdd â'r gymuned a siarad am Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. Y nod oedd sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cynllun a'r hyn y mae'n ei olygu i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i bobl ofyn cwestiynau a thrafod yn agored y camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun. Mynychodd timau ehangach hefyd fforwm a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i drafod materion lleol.

Roedd sawl asiantaeth yn bresennol ac roedd y sgysiau'n adeiladol ac yn caniatáu inni gynllunio pa fodd y gallwn ymgysylltu ymhellach â grwpiau perthnasol ym Merthyr yn benodol.

Wythnos Ffoaduriaid

Mae Wythnos Ffoaduriaid yn ŵyl ledled y Deyrnas Unedig sy'n dathlu cyfraniadau, creadigrwydd a gwytnwch ffoaduriaid a phobl sy'n chwilio am noddfa.

Cynhaliwyd Wythnos y Ffoaduriaid rhwng yr 17^{eg} a'r 23^{ain} o Fehefin ac eleni y thema oedd 'Ein Cartref'. Canolbwyntiodd yr wythnos ar greu sgysiau am yr hyn y mae 'ein cartref' yn ei olygu i bawb.

Ddydd Gwener yr 21^{ain} o Fehefin, trefnodd y Tîm Cydlyniant fore coffi yng Nghastell ac Amgueddfa Cyfarthfa a oedd ar agor i'r cyhoedd ac a fynychwyd yn dda gan deuluoedd yr Wcráin yn y Fwrdeistref Sirol, ochr yn ochr ag aelodau o dîm ailsefydlu'r Awdurdod Lleol, rhai o swyddogion Heddlu De Cymru ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yn dilyn y bore coffi, rhoddodd yr hanesydd lleol Huw Williams sgwrs ar hanes mewnfudo Merthyr a 'Mudiad Pobl'. Gwahoddwyd disgyblion ysgol leol i'r sgwrs hefyd.

Dosbarthwyd negeseuon e-bost a chyfryngau cymdeithasol i nodi'r digwyddiad.

Ffurflen Monitro Cydraddoldebau

Rydym wedi diweddarau ein ffurflen monitro cydraddoldebau ar gyfer ymgysylltu, ac rydym yn sicrhau bod y ffurflen hon ynghlwm wrth bob ymgynghoriad allanol. Mae hon yn ffurflen ddewisol ac yn caniatáu inni wybod mwy am y rhai sy'n ymateb i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â grwpiau amrywiol yn ystod ein ymgyrchoedd ymgysylltu a'n hymgyngoriadau.

Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol

Amcan: Cefnogi gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful

Rydym am i weithwyr deimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd maen nhw'n gweithio ynddi ac i fod yn nhw eu hunain. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gweithio ar y cyd ac yn cefnogi a hwyluso cyfleoedd hyfforddi a dysgu fel bod Cydraddoldebau yn cael eu cydnabod a'u hymgorffori o fewn rolau.

Mae gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael ar Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd y Cyngor i staff ei weld. Mae gennym hefyd adran Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar gyfer staff ar-lein sy'n cynnwys gwybodaeth, adnoddau a dolenni.

Mae'r gwaith a gwblhawyd i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys:

Calendr Cydraddoldeb

Mae calendr cydraddoldeb yn cael ei gynhyrchu a'i rannu gyda staff a chynghorwyr bob mis Ionawr ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff. Pwrpas y calendr yw dod â rhestr o ddiwrnodau a digwyddiadau ymwybyddiaeth genedlaethol ynghyd sy'n cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ond drwy gael cipolwg cyflym gall staff weld dyddiadau allweddol sy'n cael eu rhestru bob mis.

Mae'r calendr yn ddefnyddiol ac yn adnodd ymarferol i helpu hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant ledled y Cyngor.

Cynghorau Balch

Mae rhwydwaith Cynghorau Balch yn Ne Cymru yn bartneriaeth o Awdurdodau Lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi materion LHDT+ a hyrwyddo cynhwysiant LHDT+ yn eu priod gymunedau. Mae'r aelod-gynghorau, sy'n cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen, yn cydweithio ar fentrau a gweithgareddau amrywiol sydd â'r nod o hyrwyddo hawliau LHDT+ a meithrin amgylchedd mwy cynhwysol a chefnogol.

Mae prif amcanion a phwrpas Cynghorau *Balch* yn cynnwys:

- **Cefnogi Staff LHDT+:** Mae'r rhwydwaith yn ceisio gwella'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i weithwyr LHDT+ o fewn awdurdodau lleol yn Ne Cymru. Mae hwn yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle, darparu adnoddau, a chynnig hyfforddiant ar faterion LHDT+.
- **Arweinyddiaeth mewn Hawliau LHDT+:** Nod Cynghorau Balch yw lleoli llywodraeth leol ledled De Cymru fel arweinydd gweladwy ym maes hawliau LHDT+. Mae hwn yn cynnwys eirioli dros newidiadau ac arferion polisi sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau LHDT+.
- **Cynhwysiant Cymunedol:** Mae'r rhwydwaith yn ymroddedig i hyrwyddo cynhwysiant LHDT+ o fewn y cymunedau a wasanaethir gan aelod-gynghorau. Mae hyn yn cynnwys

ymdrechion allgymorth, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, a mentrau sy'n hyrwyddo parch ac amrywiaeth.

- **Hygyrchedd Gwasanaethau Cyhoeddus:** Mae aelodau Cynghorau Balch wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch ac yn groesawgar i bawb, waeth beth fo'u rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd, oedran, hil, anabledd neu grefydd. Mae'r ymrwymiad hwn yn pwysleisio pwysigrwydd polisïau ac arferion cynhwysol.

Trwy ymuno â Chynghorau Balch, rydym yn dangos ein hymrwymiad i greu cymunedau cynhwysol ac amrywiol. Rydym yn gweithio'n weithredol gyda'n gilydd i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo'r ffaith ein bod yn derbyn unigolion LHDT+ a'u hawliau. Mae'r ymdrechion hyn nid yn unig o fudd i drigolion a gweithwyr LHDT+ ond hefyd yn cyfrannu at gymdeithas fwy teg a chynhwysol.

Mae'r rhwydwaith wedi parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd, gan gasglu syniadau ar gyfer ymwybyddiaeth a digwyddiadau yn y dyfodol.

Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

Rhaid i staff sy'n newydd i'r Awdurdod Lleol ymgymryd â'r cwrs Cymraeg Lefel 1 fel amod cyflogaeth ac mae'n ofynnol i staff presennol uwchsgilio ac ymgymryd â'r cwrs.

Mae hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus yn elfennau allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer arfarniadau perfformiad aelodau staff ac un i un. Mae hyn yn galluogi anghenion hyfforddi gweithwyr ar gyfer cydraddoldeb i gael eu nodi a'u datrys.

Mae ein proses Sefydlu Corfforaethol ar gyfer pob aelod o staff newydd yn cynnwys modiwlau ar weledigaethau a gwerthoedd y Cyngor, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cyfeirio staff at ein polisi Urddas a Pharch yn y Gwaith sy'n gorfodi ein polisi dim goddefgarwch o fwlio nac aflonyddu.

I'r rhai sy'n rheoli staff, mae proses Sefydlu Rheolwyr yn edrych ar weledigaethau a gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o safbwynt rheolwr. Mae yna hefyd sawl sesiwn sgiliau meddal i sicrhau bod rheolwyr newydd yn gallu cefnogi staff drwy'r broses Rheoli Perfformiad sy'n sail i'n gwerthoedd a'n hymddygiadau corfforaethol. Mae sesiynau ychwanegol yn parhau i gael eu datblygu ar ôl ymgynghori trwy weithgareddau ymgysylltu â gweithwyr.

Mae pecyn hyfforddi Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb newydd ar gael i'r holl staff drwy'r porth dysgu ar-lein ar fewnwyd y staff, a gellir cael gafael arno ar unrhyw adeg. Gellir trefnu hyfforddiant personol gyda'r tîm Cydlyniant os bydd rheolwr yn gofyn amdano.

Wythnos Dysgu yn y Gwaith

Roedd Wythnos Dysgu yn y Gwaith ym mis Mai yn darparu sesiynau bach i'r holl staff, wedi'u hanelu at bwysigrwydd a manteision dysgu a datblygiad. Roedd y sesiynau yn eang ac yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth iechyd, sgiliau digidol, a hunan-ddatblygiad.

Cynhaliwyd rhai o'r sesiynau ar-lein, a rhai yn bersonol yn y Ganolfan Ddinesig ac adeiladau allanol eraill. Anogwyd yr holl staff i gymryd rhan, gan ei fod yn anelu at roi sylw at bwysigrwydd a manteision dysgu a datblygiad parhaus.

Compendiwm Hyfforddi

Mae nifer o adnoddau hyfforddi i gefnogi staff a rheolwyr wedi'u coladu i mewn i 'Gompendiwm Hyfforddi' ar Fewnwyd y Staff, gyda'r nod o'u helpu i ddysgu, datblygu, uwchsgilio a chyflawni eu gorau yn y gwaith. Mae'n rhestru hyfforddiant 'mewnol' a ddarperir gan y Cyngor a rhai partneriaethau allanol y gall staff eu defnyddio. Cydraddoldeb yw un o'r prif feysydd hyfforddi sydd ar gael.

Y Gymraeg i weithwyr

Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen Gymraeg wedi'i strwythuro gan ddefnyddio'r model 'Arwain Gwlad Ddwieithog' ar gyfer newid. Canolbwyntia ar naratif cyfathrebu allweddol sef - "Gyda'n gilydd - Rydym yn gallu - Cymryd camau bach". Mae'n meithrin diwylliant a'r ethos bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

Mae cyflwyno ein dull #SiarterShwmaeronment, sy'n cael ei dreialu ar draws tair cyfarwyddiaeth, wedi gweithredu fel 'galwad i weithredu', gan ganiatáu i'r Cyngor ymgorffori'r Gymraeg yn fwy effeithiol ac mewn dull mwy ystyrlon ar draws y Cyngor. Mae'n nodi targedau clir a mesuradwy sy'n ymgorffori Safonau'r Gymraeg ac yn meithrin mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Fe'i cyflwynwyd mewn tair cyfarwyddiaeth i ddechrau – Gwasanaethau Pobl a Thrawsnewid, Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) gyda chynnydd yn cael ei fonitro'n weithredol gan Swyddog Polisi'r Gymraeg.

Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro o amgylch dull haenog o Efydd, Arian ac Aur. Mae'r tair cyfarwyddiaeth yn gweithio tuag at gyflawni'r haen Efydd erbyn Haf 2025 gyda'r nod o symud ymlaen i Arian. Y nod hirdymor yw cyflwyno'r #SiarterShwmaeronment ar draws holl gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Mae tîm y Gymraeg hefyd wedi gwneud llawer o gynnydd wrth weithio gydag amrywiaeth o dimau a chyfarwyddiaethau gwahanol dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau cydymffurfiaeth a mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ddyfnach o'r Safonau a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Sgiliau Iaith Gymraeg gweithwyr

Roedd y Cyngor yn cydnabod yr angen i weithredu system fwy cadarn ar gyfer monitro sgiliau, ac mae cofnodion yn cael eu cadw o sgiliau iaith ein staff.

Mae nifer gyson o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg lefel uchel. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o staff yn parhau i fod heb "unrhyw sgiliau" neu sgiliau lefel isel ar draws meysydd gwrandio, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae adnodd archwilio newydd wedi'i seilio ar CEFR wedi'i gynllunio i'w weithredu yn 2025-26 a allai wella cywirdeb asesiadau sgiliau. Rydym yn annog gweithwyr sydd â sgiliau sylfaenol neu sydd heb sgiliau o gwbl, i gofrestru mewn cyrsiau – rydym yn canolbwyntio ar uwchsgilio gwirfoddol yn hytrach na dysgu gorfodol.

Wythnos gwrth-fwlio

Cynhaliwyd wythnos gwrth-fwlio 2024 rhwng yr 11^{eg} a 15^{fed} o Dachwedd gyda'r thema 'dewiswch barch'. Roedd yr wythnos yn cynnwys cyfeirio staff at gyrsiau e-ddysgu ar fwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol.

Ar y 12^{fed} cawsom ddiwrnod sanau od, fel ffordd i bawb fynegi eu hunain a dathlu eu hunigolrwydd.

Hefyd, dosbarthwyd gwybodaeth ar bynciau megis camdrin meddyliol yn y gweithle, gwrthdaro yn y gweithle, gwahaniaethu yn y gwaith a sut i drin bwlio.

Statws Cyflogwr sy'n Hyderus Ynghylch Anabledd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi llofnodi'r addewid Hyderus Ynghylch Anabledd ac mae ganddo Statws Ymrwymedig Lefel 1 – un o'r 18,000 o gyflogwyr ledled y Deyrnas Unedig i ymuno â'r cynllun pwysig hwn. Rydym am helpu i chwarae rôl flaenllaw wrth newid agweddau er gwell trwy wneud cyfleoedd o fewn y Cyngor yn fwy agored i bawb.

Wrth barhau â'n taith Hyderus Ynghylch Anabledd, rydym bellach wedi cyflawni statws Lefel 2 o fod yn Gyflogwr Hyderus Ynghylch Anabledd sy'n sicrhau ein bod yn parhau i ymrwymo i ymgymryd â champau craidd ar gyfer darparu cyfleoedd i bobl anabl fel y gallant gyflawni eu potensial a chyrraedd eu dyheadau. Rydym yn edrych i symud i Lefel 3 yn y dyfodol agos ac mae gwaith wedi dechrau ar asesu'r gofynion o symud o Lefel 2 i Lefel 3.

Mae staff wedi cael eu hannog i ychwanegu logo Cyflogwr Hyderus Ynghylch Anabledd at eu llofnod e-bost fel ein bod yn arddangos ein hymrwymiad wrth ryngweithio ag unrhyw gydweithwyr yn fewnol ac yn allanol.

Wythnos Niwroamrywiaeth

Ar gyfer Wythnos Niwroamrywiaeth, fe wnaethom godi ymwybyddiaeth trwy wahodd staff i gymryd rhan mewn gweminarau, hyfforddiant a chymryd rhan yn ein hadnoddau ar rai o'r gwahanol fathau o niwroamrywiaeth. Roedd hyn yn bwysig i addysgu staff a chreu gweithle cynhwysol. Fe wnaethom ganolbwyntio ar wahanol fathau niwroamrywiol fel Dyslecsia, Dyspraxia, Dyscalculia, Awtistiaeth ac ADHD.

Ar gyfer pob un o'r rhain crëwyd ffeithlun, a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis beth yw'r cyflwr, yr arwyddion, cryfderau, anawsterau a'r gefnogaeth y gallwn ei roi. Anfonwyd y rhain ochr yn ochr â phosteri, fideos ac adnoddau eraill i'r holl staff. Hefyd cyfathrebwyd amserlen digwyddiad wythnos o hyd lle gallai staff fynychu gweminarau am ddim gydag arbenigwyr ar wahanol bynciau niwroamrywiol.

Cafodd staff eu cynghori o'r offeryn Recite Me sydd ar ein gwefan gorfforaethol ac sydd ar gael i bawb ei ddefnyddio fel y gallant weld ein gwefan yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae gennym adran niwroamrywiaeth ar fewnwyd ein staff lle mae'r holl wybodaeth hon ar gael i staff ei gweld ar unrhyw adeg.

Deddf Diogelu Gweithwyr 2023

Mae'r Ddeddf Diogelu Gweithwyr yn ddiwygiad o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a daeth i rym ar y 26^{ain} o Hydref 2024. Mae'r ddeddf yn nodi bod gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i gymryd dull rhagweithiol ac ataliol i amddiffyn eu gweithwyr rhag aflonyddu rhywiol. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod angen i gyflogwyr feddwl yn rhagweithiol am y risgiau posibl yn eu sefydliad a chymryd camau rhesymol i'w dileu neu eu lleihau. Mae hwn hefyd yn

cynnwys atal aflonyddu rhywiol gan drydydd unigolion neu sefydliadau allanol megis cwsmeriaid a chleientiaid.

Rydym wedi dechrau gwneud asesiadau a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal gyda Phenaethiaid a'i ddiweddaru ar ein tudalen diweddariadau deddfwriaethol newydd ar y Fewnwyd.

Deddf Absenoldeb Gofalwr 2023

Daeth rheoliadau absenoldeb gofalwr i rym ar y 6^{ed} o Ebrill 2024. Mae'r rheoliad yn caniatáu i weithwyr gymryd amser i ffwrdd i ddarparu neu drefnu gofal i ddibynnydd ag anghenion gofal hirdymor. Mae gan weithwyr cymwys hawl i hyd at wythnos o absenoldeb gofalwr di-dâl bob 12 mis. Mae'r hawl hon ar gael o'r diwrnod cyntaf o gyflogaeth. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar ein Mewnwyd ac rydym wedi rhoi gwybod i'r staff.

Deddf Gofal Newyddenedigol (Gwyliau a Thâl) 2023

Cyflwynodd Deddf Gofal Newyddenedigol (Gwyliau a Thâl) 2023 hawliau newydd i rieni y mae angen gofal ysbyty estynedig ar eu babanod newydd-anedig.

O'r 6^{ed} o Ebrill 2025 mae'r hawl yn cynnwys absenoldeb gofal newyddenedigol, hawl diwrnod cyntaf hyd at uchafswm o 12 wythnos o wyliau ychwanegol a thâl gofal newyddenedigol statudol ar gyfer gweithwyr cymwys. Mae'r hawl i dderbyn tâl gofal newyddenedigol statudol yn adlewyrchu'r hawl i dâl mamolaeth a rhannu absenoldeb rhieni. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar ein Mewnwyd a'i gyfathrebu.

Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru wedi'i adnewyddu yn 2024. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn Llywodraeth Cymru i adeiladu cymdeithas gynhwysol a theg ar gyfer yr holl bobl a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi'i adnewyddu yn pwysleisio'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ymrwymadau i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030.

Mae hwn wedi'i gynnwys fel cam gweithredu gyda Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu, gan gynnwys cynlluniau eraill, gydag argymhellion yn cael eu nodi ac mae angen gwneud gwaith pellach i fodloni'r camau gweithredu o fewn y cynllun. Rydym wedi camu trwy'r cynllun gweithredu ac wedi nodi camau gweithredu awdurdodau lleol ar ôl i'r cynllun gael ei lansio am y tro cyntaf ac ers yr adnewyddiad yn 2024. Rydym hefyd wedi camu trwy unrhyw argymhellion penodol gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac rydym yn anelu at ddatblygu cynllun gweithredu drafft mewn ymateb i hyn.

Bydd diweddariadau deddfwriaethol eraill yn dilyn wedi mis Mawrth 2025 ac yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2025-2026.

Thema: Cymunedau Diogel, Cynhwysol a Chydlynol

Amcan: Hyrwyddo a hwyluso cymunedau diogel, cynhwysol a chydlynol

Mae ymgysylltu, cynhwysiant a chyfranogiad cymunedol yn hanfodol i'r Cyngor wrth gyflawni newid cadarnhaol i'r gymuned. Heb wybod mwy am y bobl sy'n ffurfio'r cymunedau ym Merthyr Tudful, nid ydym yn gallu nodi materion na rhwystrau penodol a allai eu hatal rhag cael mynediad i'n gwasanaethau neu ymgysylltu â'r Cyngor pan fo angen.

Mae rhai enghreifftiau o'r gwaith a wnaed i weithredu'r thema hon yn ystod y cyfnod hwn fel a ganlyn.

Gwasanaeth Ieuentid

Mae Gwasanaeth Ieuentid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'i bartneriaid a gomisiynwyd yn cefnogi pobl ifanc 11-25 oed yn y Fwrdeistref Sirol, mewn lleoliadau gan gynnwys ysgolion/lleoladau eraill sy'n darparu addysg, clybiau ieuentid a thrwy waith allgymorth.

Ym mis Tachwedd 2024, dyfarnwyd Marc Ansawdd Arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru i'r gwasanaeth a'i bartneriaid a gomisiynwyd yn dilyn proses asesu wythnos o hyd (tystiolaeth ysgrifenedig, cyfweiliadau ac arsylwadau) a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae'r Marc Ansawdd Arian yn asesu sefydliadau yn erbyn pedair safon: cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys pobl ifanc, cwricwlwm a datblygu'r gweithlu

Roedd y gwasanaeth yn bodloni'r holl safonau, gyda meysydd arfer da wedi'u hamlygu, gan gynnwys llawer iawn o waith a wnaed o amgylch y maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Trwy gyllid ychwanegol gan Grant Cymorth Ieuentid Llywodraeth Cymru, ymgwymerwyd â chyfres o brosiectau gan ddarpariaethau ieuentid lleol sy'n archwilio ac yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig ac anghenion dysgu ychwanegol, tra'n ymestyn gwybodaeth grwpiau ehangach o bobl ifanc.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn y prosiectau yn amrywio o hanes cymdeithasol a newid agweddau dros amser, datblygu democratiaeth o fewn darpariaethau, mynediad at chwaraeon a gweithgareddau corfforol i bobl ifanc anabl, arferion gwrth-ormesol, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, nodweddion gwarchodedig a dathlu cyfraniad lleiafrifoedd ethnig a diwylliannol i'r economi a'r gymdeithas ehangach. Mae'r prosiectau wedi cyflawni eu nodau trwy gyfuniad o waith prosiect, gweithgareddau ac ymweliadau oddi ar y safle, grymuso cyfarfodydd ag arbenigwyr, diwrnodau gwybodaeth a digwyddiadau sy'n tynnu sylw at amrywiaeth a chynhwysiant.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Mae'r dull Heneiddio'n Dda, a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, yn galw ar randdeiliaid ac ymarferwyr i ail-ganolbwyntio eu meddwl ynghylch heriau a chyfleoedd poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'n gofyn am ddull cydweithredol gan yr holl gyfranogwyr. Mae cymuned sy'n gyfeillgar i oedran yn un sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda. Mae'n gwneud y mwyaf o botensial ein cymdeithas sy'n heneiddio ac yn creu amgylchedd lle mae pawb yn edrych ymlaen at dyfu'n hŷn.

Yn 2021, roedd 39.6% (23,284) o breswylwyr yn 50+ oed ym Merthyr Tudful - cynnydd o 3.6% ers 2011 (SYG 2021)

Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio a gyda ychydig o dan ddau o bob pump o'r boblogaeth ym Merthyr Tudful yn 50+ oed, mae'n bwysicach nag erioed i gymunedau lleol, y sawl sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau weithio gyda'i gilydd i greu Merthyr Tudful sy'n gyfeillgar i oedran.

Rydym yn gweithio i wella ansawdd bywyd pobl hŷn ym Merthyr Tudful, ac rydym am sicrhau bod Merthyr Tudful yn lle sy'n gyfeillgar i oedran lle gall pobl heneiddio'n iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Fel Awdurdod Lleol rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at aelodaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn cael ein cydnabod fel Cymuned Gyfeillgar i Henoed a dod yn rhan o'u Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedran. Sefydlwyd y Rhwydwaith Byd-eang yn 2010, gyda'r bwriad o wneud cymunedau'n le gwych i heneiddio ynddynt. Eu cenhadaeth yw cysylltu lleoedd sydd eisiau gwneud eu cymunedau yn wych i dyfu'n hen ynddynt, ac i ysbrydoli newid. Mewn ymateb i'n poblogaeth sy'n heneiddio, mae'r rhwydwaith hefyd yn targedu gweithredu ar lefel leol sy'n hyrwyddo cyfranogiad llawn trigolion hŷn yn y gymuned, er mwyn gwella heneiddio'n iach ac egnïol.

Mae'r Sefydliad Iechyd Byd Eang yn canolbwyntio ar 8 parth neu nodwedd rhyng-gysylltiedig o fewn y gymuned i dynnu sylw at a goresgyn rhwystrau sy'n effeithio ar les pobl hŷn. Os ystyrir anghenion pobl wrth iddynt heneiddio ar draws y meysydd hyn, yna gallwn helpu i sicrhau bod Merthyr Tudful yn ardal lle gall pawb heneiddio'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Nid yw aelodaeth i'r rhwydwaith yn achrediad ar gyfer cyfeillgarwch oedran. Yn hytrach, mae'n adleisio ein hymrwymiad i wrando ar anghenion ein trigolion sy'n 50+ oed, a gweithio ar y cyd â sectorau a sefydliadau eraill ar draws ein Bwrdeistref Sirol i greu amgylcheddau materol a chymdeithasol sy'n gyfeillgar i oedran. Mae win aelodaeth yn ymrwymiad i rannu ein profiadau, ein llwyddiannau a'n trafferthion gyda dinasoedd a chymunedau eraill sy'n aelodau o'r rhwydwaith.

Er mwyn cofrestru i rwydwaith o gymunedau a dinasoedd sy'n gyfeillgar i oedran, mae angen i ni sefydlu llinell sylfaen o'n trigolion hŷn yn gyntaf. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda staff, uwch reolwyr, a'r cyhoedd i gasglu adborth ar yr 8 parth. Yn 2023 lansiodd Cyfeillgar i Oedran Merthyr Tudful arolwg Cyfeillgar i Oedran ym Merthyr yn seiliedig ar 8 parth y Sefydliad Iechyd Byd Eang. Nod yr arolwg oedd casglu barn pobl hŷn, yn ogystal â'u gofalmwyr, ffrindiau a theulu, i helpu i adeiladu darlun o'r hyn sy'n bwysig i drigolion yn ein cymunedau lleol o'i gymharu â pha wasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae canfyddiadau'r arolwg hwn wedi llywio datblygiad ein hasesiad gwaelodlin 'Merthyr Tudful sy'n Gyfeillgar i Oedran.' Mae'r adroddiad yn nodi ble yr ydym ar hyn o bryd a'n prif argymhellion ar gyfer dyfodol Merthyr Tudful sy'n Gyfeillgar i Oedran. Nododd yr arolwg y 10 prif 'fwlch' o anghenion yr hyn oedd yn bwysig i drigolion Merthyr Tudful o'i gymharu â pha wasanaethau a darpariaeth sydd ar gael iddynt.

Mae dadansoddiad o'r ymgysylltiad a'r ymgynghoriad hwn yn digwydd ar hyn o bryd fel y gallwn ddatblygu ein hasesiad sylfaenol. Rydym hefyd wedi edrych ar elfennau penodol o fewn yr adborth ymgynghori i lywio strategaethau eraill ac i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bawb.

Ar ôl sefydlu ein llinell sylfaen, y cam nesaf yw cwblhau ein cais er mwyn dod yn aelod o rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar y Sefydliad Iechyd Byd Eang a fydd yn

ein galluogi i ymgysylltu a gweithio gydag aelodau eraill o'r rhwydwaith i rannu arferion gorau a sicrhau bod Merthyr Tudful yn lle gwych i fyw ynddo a heneiddio'n dda.

Ysgolion

Cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ym mhob un o'n hysgolion, i godi ymwybyddiaeth ac i addysgu pobl ifanc Merthyr Tudful am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae'n cynnwys y canlynol:

- Cyflwynodd y tîm Cydlyniant Cymunedol hyfforddiant Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb mewn sawl ysgol
- Ar gyfer y Gymraeg, mae pob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol bellach yn rhan o wobrau Campws Siarter Iaith/Cymraeg gyda'r ddwy Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn ennill eu Gwobrau Aur.
